# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 — Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4655A2025

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1—adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 15

Atodiad 2—ffi archwilio 17

Atodiad 3—risgiau archwilio cyfrifon 18

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2024 yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau i sicrhau y defnyddir adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol

3 Cynhaliwyd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i gyfres eang o heriau yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Hefyd, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth pandemig COVID-19. Felly, cynlluniwyd fy rhaglen waith i sicrhau pobl Cymru orau fod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Parhawyd i weithio ac ymgysylltu o bell i raddau helaeth fel y bo modd gan ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuwyd rhywfaint o waith archwilio ar y safle fel y bo'n briodol i wneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar ein modd o gyflawni gwaith archwilio, ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Cafodd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyfrifon archwiliedig ei ddwyn yn ôl bythefnos o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, i 15 Gorffennaf 2024. Ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 12 Gorffennaf 2024, sy'n golygu bod y dyddiad cau wedi ei fodloni. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion yr Ymddiriedolaeth.

6 Mae pwyslais a dull fy ngwaith archwilio perfformiad yn parhau i fod yn gyson â'r heriau ôl-bandemig sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru ac fe'i cynhelir yn unol â safonau archwilio INTOSAI[1].

[1] Sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad anllywodraethol ydyw sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond nid yw wedi ei gwblhau eto.

8 Cyflwyna **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am y costau o ymgymryd â'm gwaith, o'u cymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2024.

9 Noda **Atodiad 3** y risgiau archwilio cyfrifon a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2024 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Tîm Gweithredol wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Gwnaethom ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 30 Ionawr 2025. Rydym yn annog yr Ymddiriedolaeth yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

12 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (fel y bo'n berthnasol i'm harchwiliad), fodd bynnag, deuthum â rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.

13 Ni nodais unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2023–24 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn unol ag awdurdodau na thrafodion na ddefnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2023–24 yr Ymddiriedolaeth.

14 Ni chyflwynais unrhyw adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn eleni oherwydd nad oedd unrhyw faterion i'w hadrodd.

## Trefniadau i sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus

15 Mae fy rhaglen o waith archwilio perfformiad yr Ymddiriedolaeth wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i sicrhau llywodraethu da, ac mae dulliau cadarn ar waith i ddatblygu a monitro ei chynlluniau ac i reoli ei chyllid. Fodd bynnag, mae angen gwella amseroldeb rhai cyfarfodydd

pwyllgor o hyd a datblygu dull mwy cynhwysfawr o fapio sicrwydd yn rhan o'i Fframwaith Sicrwydd Bwrdd.

- Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau clir ar gyfer nodi a chyflawni ei chyfleoedd i wella costau ac i fonitro ei sefyllfa ariannol cyffredinol. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch cynnydd chwyddiant yn cyflwyno risgiau y bydd angen eu rheoli yn y tymor canolig i'r hirdymor.

16 Archwilir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion, a'i lifoedd arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

18 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2024 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwiliad cyfrifon 2023–24 a manylir ar hyn ynghyd â sut yr aed i'r afael â nhw yn **Arddangosyn 4**, **Atodiad 3**.

19 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2023–24

20 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (fel y bo'n berthnasol i'm harchwiliad), fodd bynnag, deuthum â rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio i'w gwella.

21 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei chyfrifon drafft cyn y dyddiad cau gofynnol. Roedd y cyfrifon, a phapurau gwaith atodol, o ansawdd da, a darparodd swyddogion yr Ymddiriedolaeth lefel briodol o gefnogaeth ac ymgysylltiad i'n galluogi i gwblhau'r archwiliad yn amserol.

22 Cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n rhaid imi adrodd ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio) fel y gallant eu hystyried. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol y materion hyn ar 10 Gorffennaf 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Gwnaethom nodi un camddatganiad amherthnasol yn y cyfrifon a oedd yn dal heb ei gywiro mewn cysylltiad â phrisiadau Eiddo, Peiriannau ac Offer a ddatganwyd yn rhy uchel. Roedd y cyfrifon yn cynnwys prisiadau rhai asedau offer yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi methu â dangos eu bod yn dal yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth ac nad ydynt wedi eu gwaredu. |

| Mater | Sylwadau’r Archwilwyr |
| --- | --- |
| | Effaith fwyaf y gwall hwn yw bod gwerthoedd Gros agoriadol ar y Llyfrau yn cael eu datgan £889,000 yn rhy uchel a bod y Gwerthoedd Net ar y Llyfrau £127,000 yn rhy uchel ar 31 Mawrth 2024. Felly nid oedd effaith gyffredinol y camddatganiad hwn yn berthnasol ac ni chafodd unrhyw effaith ar ein barn archwilio. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Roedd sawl addasiad i’r datganiadau ariannol, ac ni chafodd yr un ohonynt effaith berthnasol. |
| Materion arwyddocaol eraill | Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol eraill. |

23 Cynhaliais hefyd adolygiad o ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Penderfynais fod gwybodaeth gyfuno y gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2024 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau’r Trysorlys.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

24 Mae’n rhaid i drafodiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth fod yn unol â’r awdurdodau sy’n eu rheoli nhw. Mae’n rhaid bod ganddi’r pwerau i dderbyn incwm a gwario arian. Mae ein gwaith yn adolygu’r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan yr Ymddiriedolaeth y pwerau i’w derbyn neu i’w hysgwyddo.

25 Ni nodais unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2023–24 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn unol ag awdurdodau na thrafodion na ddefnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra’r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2023–24 yr Ymddiriedolaeth.

26 Ni chyflwynais unrhyw adroddiad sylweddol ar y cyfrifon ochr yn ochr â’m barn eleni oherwydd nad oedd unrhyw faterion i’w hadrodd.

27 Mae gennyf y pŵer i gyflwyno adroddiad sylweddol ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ynghyd â’m barnau pan rwyf yn dymuno tynnu sylw at faterion. Pan fo’r Ymddiriedolaeth yn methu un o’i dyletswyddau ariannol—i fantoli’r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd a bod â chynllun tair blynedd cymeradwy ar waith—neu fod fy marn yn amodol, byddaf yn cyhoeddi adroddiad sylweddol.

28 Bodlonodd yr Ymddiriedolaeth ei dwy ddyletswydd ariannol, ac roedd fy marn yn ddiamod, felly ni chyhoeddais adroddiad o’r fath ar gyfer y materion hyn.

# Trefniadau i sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus

29 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth o ran y defnydd o adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus; ac
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau arbedion cost yr Ymddiriedolaeth.

30 Nodir isod fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn.

## Asesiad strwythuredig

31 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig 2024 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i gyfres ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Hefyd, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth pandemig COVID-19. Felly, yn fwy nag erioed, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu rhoi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

32 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar: dryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull corfforaethol o gynllunio; a dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

### Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd

33 Ystyriodd fy ngwaith a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Rhoddais sylw arbennig i'r hyn a ganlyn:

- Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd
- Trefniadau i gefnogi ymddygiad busnes y Bwrdd
- Cyfarfodydd, busnes a strwythur y Bwrdd a'r pwyllgor, a llifoedd sicrwydd
- Ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill
- Cydlynrwydd, profiadau a sgiliau y Bwrdd, a'i ymrwymiad i welliant

34 Canfu fy ngwaith fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n dda, ac yn cynnal pwyslais da ar dryloywder cyhoeddus, ar wrando ar y staff a defnyddwyr y gwasanaeth, ac ar welliannau parhaus. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gydlynol ac mae newidiadau yn yr aelodaeth wedi eu rheoli'n dda. Yn gyffredinol, mae ansawdd y papurau o safon dda a chymerir camau priodol i wella hyn ymhellach. Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i adolygu amseru cyfarfodydd ei phwyllgorau er mwyn sicrhau y'u cynhelir yn ddigon aml, a'u bod yn cefnogi'r llif sicrwydd i'r Bwrdd yn ddigonol.**

35 Mae'r Bwrdd yn dal wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes yn dryloyw. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw, gall y cyhoedd arsylwi yn rhithiol, ac mae recordiadau ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn fuan wedyn. Cyhoeddir dyddiadau a phapurau cyfarfodydd ymhell ymlaen llaw. Cynhelir busnes y Bwrdd yn unol ag ymddygiad safonol yr Ymddiriedolaeth sy'n nodi'r gwerthoedd a'r diwylliannau a ddisgwylir gan y rhai sy'n bresennol. Rydym yn parhau i arsylwi trafodaethau agored a gonest yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw'r defnydd o sesiynau preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau cyn ised â phosibl, gan gadw'r rhain ar gyfer materion cyfrinachol a sensitif yn unig.

36 Mae gan y Bwrdd drefniadau effeithiol o hyd i gefnogi ei ddull o arwain ei fusnes. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Reolau Sefydlog cyfredol a hygyrch, Cynllun Dirprwyo, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar waith gyda thystiolaeth o gydymffurfiaeth. Darperir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol bob chwe mis ar y trefniadau ar gyfer rheoli datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch, cydymffurfiaeth â Chylchlythyrau Iechyd Cymru, a diweddaru polisïau. Gwnaed cynnydd sylweddol i sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu diweddaru ac ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

37 Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol yn gyffredinol. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i strwythur y pwyllgor na'i gylch gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae Cylch Gorchwyl pob pwyllgor yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo o leiaf bob blwyddyn. Mae cynlluniau gwaith ar waith ac maent yn adlewyrchu ehangder busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau'n cael eu cadeirio'n dda. Gwnaethom arsylwi lefelau da o waith craffu, cefnogaeth a her yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae llifoedd gwybodaeth clir o hyd ar draws y pwyllgorau ac i'r Bwrdd. Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i adolygu amseru cyfarfodydd ei phwyllgorau er mwyn sicrhau y'u cynhelir yn ddigon aml, a'u bod yn cefnogi'r llif sicrwydd i'r Bwrdd yn ddigonol.

38 Mae'r Bwrdd yn parhau i dderbyn gwybodaeth amserol a chlir sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol, gwaith craffu a her. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud defnydd da o offer rhyngweithiol, megis ei Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad a'i Dangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus. Pan nodir cyfleoedd i wella ansawdd papurau, mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau priodol i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi treialu gwaith i wella ansawdd yr adroddiadau a baratoir ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn diwallu anghenion

aelodau y pwyllgor. Canolbwyntiodd y peilot ar fod yn glir ynghylch yr wybodaeth sydd ei hangen, yr amser sydd ei angen i gynnal trafodaeth, a'r fformat mwyaf priodol ar gyfer cyflwyniad.

39 Mae'r Bwrdd wedi parhau i gryfhau ei ymrwymiad a'i ddull o wrando ar y staff a defnyddwyr y gwasanaethau. Mae cynrychiolwyr staff yn parhau i fynd i holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae'r Bwrdd hefyd yn cael gwybodaeth gan grwpiau rhwydwaith staff yr Ymddiriedolaeth o bryd i'w gilydd, ac mae aelodau y Bwrdd yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â staff o amgylch ymylon cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Ystyrir dulliau ar gyfer ymgysylltu â staff fel mater o drefn yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ac mae canfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu sawl dull i wrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'r boblogaeth ehangach, ac mae canfyddiadau o ddulliau ymgysylltu eraill wedi eu cynnwys ym musnes y pwyllgorau.

40 Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gydlynol, gyda phwyslais cryf ar ddatblygu a gwella. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd cryf o hyd, gyda phortffolio amrywiol o sgiliau a phrofiadau ar draws gwahanol sectorau. Mae newidiadau yn aelodaeth y Bwrdd wedi eu rheoli'n dda, gan ddod ag egni newydd a phersbectif ffres. Mae Uned Busnes Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu rhaglen cynefino lleol i gefnogi Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd, ac mae wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu Bwrdd drwy gydol y flwyddyn.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

41 Gwnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio'r perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; ac
- olrhain argymhellion.

42 Canfu fy ngwaith fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol sy'n gysylltiedig â risg, perfformiad, ac argymhellion olrhain a gwaith craffu cysylltiedig. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth nodi pob ffynhonnell sicrwydd o hyd ar effeithiolrwydd ei threfniadau i reoli ei risgiau strategol ac i gyflawni ei hamcanion sefydliadol**.

43 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei dull rheoli risgiau, ac mae proses y Bwrdd a'r pwyllgorau o oruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol yn gwella. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth nodi pob ffynhonnell sicrwydd o hyd ar effeithiolrwydd ei threfniadau i reoli ei risgiau strategol ac i gyflawni ei hamcanion sefydliadol. Adnewyddodd yr Ymddiriedolaeth ei Chofrestr Risgiau Strategol ym mis Ionawr 2024, ac mae bellach yn cynnwys cyfeiriadau at risgiau corfforaethol cysylltiedig. Fodd bynnag, mae sicrwydd cyfredol ac arfaethedig (i

gau bylchau mewn rheolaeth) yn parhau gan mwyaf heb fynd y tu hwnt i'r ffynonellau gweithredol mewnol a fyddai'n cael eu categoreiddio fel rheng flaen ei hamddiffyniad.

44 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â threfniadau rheoli perfformiad da ac sy'n gwella, ac mae'r Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth ac yn craffu ar berfformiad yn effeithiol. Mae'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad, yr Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad a'r Dangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus yn parhau i wella. Adroddir pob un i'r Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn rheolaidd, ac maent yn parhau i ddarparu data clir, hygyrch ac ystyrlon ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar draws holl fusnes yr Ymddiriedolaeth.

45 Mae trefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer olrhain cynnydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion archwilio wedi gwella, er bod cyfle o hyd i wella goruchwyliaeth ganolog mathau eraill o argymhellion. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio log i fonitro'r cynnydd o'i gymharu ag argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Mae monitro'r log archwilio wedi ei ddirprwyo i'r Tîm Arweinyddiaeth, a gynhaliodd adolygiad dwfn o'r holl argymhellion a oedd yn weddill. Rhoddodd yr adolygiad ddealltwriaeth o'r cynnydd o'i gymharu â phob cam gweithredu, y risgiau sy'n gysylltiedig â chamau gweithredu y tu hwnt i'w dyddiad cau ac ystyriodd a oedd unrhyw geisiadau am estyniad yn briodol ac yn realistig. Mae'r cynnydd o ran cyflawni dyddiadau targed argymhellion archwilio clinigol yn parhau i gael ei adrodd bob chwe mis i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Nid oes proses byth ar gyfer olrhain argymhellion o adolygiadau archwilio clinigol yn ganolog neu fathau eraill o adolygiadau, ac mae'r wybodaeth ofynnol yn cael ei chadw ar wahân yn y cyfarwyddiaethau perthnasol.

## Dull cynllunio corfforaethol

46 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gynllunio. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- llunio a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a
- goruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

47 Canfu fy ngwaith fod **gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o ddatblygu a monitro'r broses o gyflawni Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, ond mae lle i gryfhau ei dull o ddangos effaith ymhellach**.

48 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar gyfer datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, a gefnogir gan ymgysylltu da â'r Bwrdd. Wedi ei osod yng nghyd-destun ei strategaeth hirdymor newydd, dechreuodd yr Ymddiriedolaeth ddatblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 ym mis Hydref 2023. Helpodd gwaith ymgysylltu ar draws y sefydliad i ddatblygu camau gweithredu allweddol i'w cynnwys yn y cynllun. Chwaraeodd y Bwrdd ran yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a chymeradwyodd y cynllun yn ffurfiol ym mis Mawrth 2024. Cyflwynwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig i

Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol a chafodd gymeradwyaeth Gweinidogol ym mis Awst 2024. Dechreuwyd y broses o ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025–28 ym mis Hydref 2024. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu trywydd ar gyfer ei chwe blaenoriaeth strategol er mwyn nodi'r cerrig milltir ar gyfer cyflawni dros y tymor byr i'r hirdymor a llywio datblygiad blynyddol y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

49 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da o hyd ar gyfer monitro a chraffu ar gyflawni ei chynlluniau a'i strategaethau, ond mae lle i gryfhau ymhellach ei dull o ddangos effaith. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dull o fesur a dangos effaith Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi 43 blaenoriaeth i gefnogi'r broses o gyflawni'r chwe amcan strategol a'r rhaglenni newid strategol. Mae gan bob blaenoriaeth Cynllun Tymor Canolig Integredig gyflawniadau a cherrig milltir clir a chanlyniadau neu allbynnau a fwriedir. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau yn fesuradwy. O ganlyniad, mae'n anodd asesu, wrth gyflawni'r flaenoriaeth, a yw'r effaith a fwriedir wedi ei chyflawni ai peidio. Mae'r dull o fonitro a chraffu ar gynlluniau a strategaethau yn parhau i fod yn gryf. Mae'r Tîm Gweithredol Busnes yn gyfrifol am oruchwylio'r blaenoriaethau strategol a nodir mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, y mae pob un ohonynt wedi eu neilltuo i arweinydd gweithredol. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn monitro ac yn craffu ar y broses o'u cyflawni. Mae'r cynnydd o'i gymharu â cherrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn parhau i gael ei adrodd bob mis i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol Busnes drwy'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

50 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio gwaith cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

51 Canfu fy ngwaith fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â dull cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol**.

52 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol yn 2023–24 a rhagwelir y bydd yn mantoli'r cyfrifon yn 2024-25. Bodlonodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol ar gyfer cyfnod treigl tair blynedd 2021–24 hefyd, gyda gwarged cronnus o £279,000.

53 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â dull cadarn ar gyfer cynllunio ariannol a chyflawni arbedion. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Ariannol clir a chytbwys ar gyfer 2024–27 a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2024.

54 Mae gan yr Ymddiriedolaeth brosesau cadarn ar waith o hyd i sicrhau cydymffurfiaeth ag offerynnau statudol, ac i adrodd a herio toriadau. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i fod â rheolaethau da ar waith i reoli ei chyllid a

chynnal goruchwyliaeth o’r sefyllfa ariannol ar lefel gyfarwyddiaeth. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da yn unol â’r amserlenni gofynnol, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a’r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024.

55 Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â threfniadau da ar gyfer monitro ac adrodd ei sefyllfa ariannol. Cyflwynir adroddiadau ariannol cynhwysfawr i bob cyfarfod Bwrdd, gyda gwaith craffu a her dda. Cynhwysir perfformiad ariannol yn y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad hefyd a cheir crynodeb o hyn yn yr Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad.

## Adolygu trefniadau arbed costau

56 Archwiliodd fy adolygiad a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull effeithiol o nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd am arbedion costau cynaliadwy. Ystyriodd yr effaith a gafodd y trefniadau hyn ar sefyllfa diwedd blwyddyn 2023–24 yr Ymddiriedolaeth a phwysleisiodd pryd y bo angen cryfhau trefniadau ar gyfer 2024–25 a thu hwnt.

57 Canfu fy ngwaith fod gan **yr Ymddiriedolaeth drefniadau clir ar gyfer nodi a chyflawni ei chyfleoedd i wella costau ac i fonitro ei sefyllfa ariannol cyffredinol. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch cynnydd chwyddiant yn cyflwyno risgiau y bydd angen eu rheoli yn y tymor canolig i’r hirdymor**.

58 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth dda o’i sbardunau cost a nodir yn glir yn ei Strategaeth Gyllideb a’i Chynllun Ariannol 2024–27. Mae’r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr amgylchedd ariannol heriol y mae’r sefydliad, a’r GIG ehangach yng Nghymru, yn gweithredu ynddo ac mae wedi datblygu ei gynllun refeniw ar gyfer 2024–25 yn unol ag egwyddorion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn y blynyddoedd i ddod, mae’r Ymddiriedolaeth wedi tybio y bydd yn derbyn codiad ar gyfer chwyddiant nad yw’n ymwneud â chyflog a phwysau cost, ond o ystyried nad yw hyn wedi ei gadarnhau, bydd angen i’r Ymddiriedolaeth gadw golwg fanwl ar ei sefyllfa ariannol tymor canolig i hirdymor.

59 Mae gan yr Ymddiriedolaeth hanes da o gyflawni ei thargedau arbedion cyffredinol, ac mae cyfran uchel o’r arbedion a gyflawnir yn rhai rheolaidd. Hefyd, yn 2023–24, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i nodi arbedion ychwanegol yn gyflym a oedd werth cyfanswm o £4.2 miliwn mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru a ofynnodd i gyrff iechyd gefnogi gwelliant yn sefyllfa ariannol cyffredinol GIG Cymru. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar waith i droi ei ofynion arbed lefel uchel yn gynlluniau arbed y gellir eu defnyddio.

60 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer monitro a goruchwylio ei pherfformiad ariannol cyffredinol, a chyflwynir adroddiadau cynhwysfawr yn rheolaidd i bob cyfarfod Bwrdd ac maent yn ddarostyngedig i waith craffu a her dda. Mae’r Ymddiriedolaeth yn monitro ei risgiau ariannol allweddol fel mater o drefn.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2024.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | 10 Gorffennaf 2024 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | 12 Gorffennaf 2024 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2024 | Rhagfyr 2024 |
| Adolygiad o'r Trefniadau Arbed Costau | Rhagfyr 2024 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2024 | Mai 2024 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2024 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan. Mae'r astudiaethau hyn yn arfer yn cael eu cyllido drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus er mwyn gefnogi ei waith o graffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Adolygiad o'r Trefniadau ar gyfer Gosod a Monitro Amcanion Llesiant | Ionawr 2025 |
| Adolygiad Llywodraethu Ansawdd Dilynol | Mai 2025 |
| Adolygiad Trawsnewid Digidol | Mai 2025 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2024 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £196,389 (heb gynnwys TAW). Fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, yw bod y gost wirioneddol o gyflawni ein harchwiliad yn is na'r ffi amcangyfrifedig hon ac felly bydd ad-daliad bach yn cael ei roi i'r Ymddiriedolaeth pan fydd yr archwiliad wedi ei gwblhau.

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, roedd y gwaith archwilio a wnaed ar y cydwasanaethau a ddarparwyd i'r Ymddiriedolaeth gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn costio £641.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio cyfrifon

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio cyfrifon**

Mae fy Nghynllun Archwilio 2024 yn nodi risgiau o gamddatganiad a/neu afreoleidd-dra perthnasol ar gyfer archwiliad cyfrifon 2023–24 yr Ymddiriedolaeth. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| **Gwrth-wneud gan y Rheolwyr**<br>Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32–33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Gwaith archwilio arfaethedig a gwblhawyd heb i faterion godi. |
| **Y Ddyletswydd i Fantoli'r Cyfrifon**<br>Mae gan Ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r ddyletswydd | Byddwn yn canolbwyntio ein profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys rhagfarn wrth lunio adroddiadau. | Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni ei dyletswydd i fantoli'r cyfrifon—nid oes materion sy'n codi. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| hon yn cynyddu’r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon gan reolwyr a gynhwysir yn y datganiadau ariannol fod yn rhagfarnllyd er mwyn cyflawni’r ddyletswydd ariannol. Pan fo’r Ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni’r ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn cyflwyno adroddiad sylweddol ynghylch y datganiadau ariannol, sy’n tynnu sylw at y methiant. | | |
| **Partïon Cysylltiedig a Thaliad Cydnabyddiaeth Uwch-swyddogion**<br>Rwyf yn barnu bod rhai o’r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, megis partïon cysylltiedig a thaliad cydnabyddiaeth uwch-swyddogion ac Aelodau y Bwrdd, yn berthnasol eu natur, gyda lefel o berthnasedd sy’n llawer is. Felly, yn y bôn, mae’r camddatganiadau hyn yn dueddol i gael eu camddatgan yn berthnasol.<br>Mae’r risg o wall yn cynyddu ymhellach:<br>• wrth i wallau gael eu nodi yn y ddau nodyn datgelu yn ystod ein harchwiliad 2022–23; a<br>• bu rhai newidiadau dros dro i Strwythur Uwch-reoli yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2023–24 y bydd angen eu datgelu yn y datganiadau ariannol. | Byddwn yn gwella fy archwiliad o’r meysydd datgelu hyn, yr ystyrir eu bod yn berthnasol eu natur, er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir. | Gwnaed nifer bach o addasiadau i’r datgeliadau hyn o ganlyniad i’n gwaith archwilio. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Dosbarthu Incwm a Gwariant**<br>Gwnaethom nodi gwallau dosbarthu perthnasol yn natganiadau ariannol 2022–23. Cywirodd y rheolwyr y gwallau hyn, gan gytuno i fynd i'r afael â nhw yn rhan o broses gynhyrchu cyfrifon 2023–24 er mwyn osgoi gwallau camddosbarthu tebyg rhag ailddigwydd. | Bydd y tîm archwilio yn dilyn y camau gweithredu a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth ac yn cynnal profion archwilio cysylltiedig er mwyn sicrhau bod y mater hwn wedi cael sylw yn natganiadau ariannol 2023–24. | Cwblhawyd ein gwaith archwilio yn ôl y bwriad ac ni chododd unrhyw faterion. |
| **Trefniad lletya—Gweithrediaeth y GIG**<br>Yn ystod 2023–24, ehangwyd swyddogaeth yr Ymddiriedolaeth fel corff sy'n lletya Gweithrediaeth y GIG oherwydd bod swyddogaethau ychwanegol yn trosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Bydd angen adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â Gweithrediaeth y GIG yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth. | Byddwn yn cynnal profion archwilio i sicrhau bod asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant Gweithrediaeth y GIG yn cael eu cyfrifyddu'n gywir yn natganiadau ariannol 2023–24 yr Ymddiriedolaeth a bod y datgeliadau ategol cysylltiedig yn gywir. | Cwblhawyd ein gwaith archwilio yn ôl y bwriad ac ni chododd unrhyw faterion. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.